Adroddiad Cyfranogiad Sialens Ddarllen yr Haf 2017

"Mae Sialens Ddarllen yr Haf wedi dod yn rhan draddodiadol o'n hafau fel teulu. Mae'n weithgaredd teuluol hyfryd (ymweld â'r llyfrgell... neu'r llyfrgell deithiol) y gallwn ei fwynhau am ddim ac mae'n cadw'r momentwm i fynd o ran darllen." *Rhiant merch 4-7 oed, Powys*

Trosolwg

Mae The Reading Agency, ynghyd â rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus y DU, wedi datblygu a chyflwyno Sialens Ddarllen yr Haf er 1999. Dyma ymgyrch hyrwyddo darllen flynyddol fwyaf y DU i blant rhwng pedair ac un ar ddeg oed (gyda nifer cynyddol o blant cyn oed ysgol yn cymryd rhan). Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn denu plant i'w llyfrgelloedd lleol ac yn eu hysbrydoli i ddarllen er pleser trwy gyfuno mynediad am ddim i lyfrau â gweithgareddau cymdeithasol hwyliog ac elfen ar-lein greadigol. Trwy gydol Sialens Ddarllen yr Haf, bydd staff y llyfrgelloedd a gwirfoddolwyr yn eu harddegau ac yn oedolion yn cefnogi'r plant, gan eu cynorthwyo i ddarganfod awduron newydd ac archwilio ystod eang o wahanol fathau o lyfrau.

"Darllen er pleser darllen – dyna beth yw hanfod Sialens Ddarllen yr Haf. Darganfod byd rhwng cloriau llyfr. Byd dychmygol sy'n gwneud synnwyr i chi – awdur sy'n eich deall chi, dyna un o'r cysuron pennaf y mae darllen yn eu cynnig. Weithiau byddwch chi'n darganfod stori fydd yn eich helpu chi i ddeall yr hen fyd yma'n well, ac mae hynny hefyd yn beth gwych.

Efallai y bydd y llyfr y byddwch yn ei ddarllen yn mynd â chi i rywle nad ydych erioed wedi'i ddychmygu hyd yn oed, neu efallai y bydd yn mynd â chi yn ôl i rywle sy'n teimlo'n debyg iawn i gartref. Mae storïau'n bwysig oherwydd eu bod yn rhoi maeth inni, ac yn ehangu ein ffordd o feddwl. Mae llyfrgellwyr a phawb fu ynghlwm â llwyddiant aruthrol Sialens Ddarllen yr Haf 2017 yn gwybod pa mor bwysig yw hyn, ac maent yn ceisio newid bywydau un llyfr ar y tro."
Lauren Child, Awdur/Darlunydd Llyfrau Plant Llawryfog Waterstones

Trwy gyfrwng rhaglenni megis Sialens Ddarllen yr Haf, mae The Reading Agency eisiau ysbrydoli rhagor o bobl i ddarllen mwy, eu hannog i rannu'r mwynhad a gânt wrth ddarllen a dathlu'r gwahaniaeth y mae darllen yn ei wneud i'n bywydau ni oll. Nod y rhaglenni hyn, sy'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â llyfrgelloedd, yw mynd â phobl ar eu taith ddarllen bersonol, ac i lawer o ddarllenwyr ifanc gall Sialens Ddarllen yr Haf fod yn gam cyntaf ar y daith honno.

Yng Nghymru, mae Sialens Ddarllen yr Haf yn cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru, trwy gyfrwng Cyngor Llyfrau Cymru, sy'n helpu i greu'r deunyddiau dwyieithog a ddefnyddir gan 100% o

awdurdodau lleol Cymru.

Pam mae Sialens Ddarllen yr Haf yn bwysig

- Darllen er pleser yw'r ffordd orau o gefnogi plant i ddatblygu yn ddarllenwyr hyderus
- Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn rhoi llwyfan i lyfrgelloedd allu creu cyswllt â thirwedd addysgol sy'n gynyddol amrywiol
- Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn hygyrch i blant a chanddynt amrywiaeth o anghenion addysgol arbennig ac anableddau, ac mae'n cynnig cyfle cyfartal i bob person ifanc
- Mae'r deunyddiau cyn oed ysgol yn cefnogi awdurdodau lleol â'u hagenda parodrwydd ar gyfer ysgol
- Mae'r elfen wirfoddoli sy'n cyd-fynd â'r Sialens yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc fagu sgiliau a chael profiad gwaith a fydd yn fuddiol ar gyfer addysg bellach, cyswllt cymunedol a chyflogaeth
- Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn gost-effeithiol ac yn galluogi awdurdodau lleol i elwa yn sgil arbedion maint, ac ar yr un pryd yn hyblyg er mwyn cwrdd â blaenoriaethau lleol (mae deunyddiau craidd Sialens Ddarllen yr Haf yn costio llai na £1 y plentyn i lyfrgelloedd)

Cymryd rhan yn 2017

Cyflwyniad

Yn 2017, bu i 97% o awdurdodau lleol y DU gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf. Cyflwynodd yr holl awdurdodau a gymerodd ran ddata i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Roedd yr hyn a gyflwynwyd yn cynnwys ystadegau ar gyfranogiad ac adborth gan lyfrgelloedd sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdodau lleol, llyfrgelloedd teithiol a llyfrgelloedd dan arweiniad gwirfoddolwyr. Mae'r adborth ychwanegol a ddarparwyd yn cynorthwyo The Reading Agency a'r llyfrgelloedd i siapio Sialens Ddarllen yr Haf ar gyfer y dyfodol.

Cyfanswm y rhai fu'n cymryd rhan

Cymerodd cyfanswm o 761,758 o blant ran yn Sialens Ddarllen yr Haf yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac o blith y rhain:

- cymerodd 734,552 o blant rhwng 4 ac 11 oed, gan gynnwys yr oedrannau ar naill ben yr ystod a'r llall, ran yn y Sialens yn eu llyfrgell leol (roedd 44% ohonynt yn fechgyn[1]).
- cymerodd 27,206 o blant dan 4 ran gan ddefnyddio deunyddiau Sialens Ddarllen yr Haf a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer plant cyn oed ysgol.

Yn rhyngwladol, cyrhaeddodd Sialens Ddarllen yr Haf 18,400 yn rhagor o blant a fu'n cymryd rhan trwy'r British Council a'r lluoedd arfog.

Cymryd rhan yn Llyfrgelloedd y DU

O blith y 734,552 o blant 4-11 oed fu'n cymryd rhan yn y brif Sialens:

[1] Dim ond 1 ym mhob 4 bachgen sy'n darllen y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth bob dydd – Adroddiad yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol 2012

- Cwblhaodd 415,732 o blant (57%) y Sialens trwy ddarllen o leiaf chwe llyfr (roedd 43% ohonynt yn fechgyn).
- Ymunodd 86,709 o blant â'r llyfrgell fel aelodau newydd yn ystod y Sialens yr haf yma.
- Yn ogystal, bu 7,763 o wirfoddolwyr ifanc Hac Darllen rhwng 12 a 24 oed yn cefnogi'r Sialens yn frwd trwy helpu plant iau i gymryd rhan.
- Adroddodd y teuluoedd[2] a gymerodd ran yn y Sialens ei bod wedi cael effeithiau cadarnhaol cryf yn y meysydd canlynol:
    - teimlai 87% fod y Sialens wedi helpu eu plentyn i fwynhau darllen
    - credai 78% ei bod yn annog plant i ddarllen mwy dros yr haf
    - teimlai 75% fod cymryd rhan yn cynyddu'r defnydd o'r llyfrgell
    - adroddodd 73% ei bod yn cynyddu'r sgwrsio am lyfrau.
- Amcangyfrifwn fod nifer y benthyciadau gan blant dros yr haf yn uwch nag 16.5 miliwn, ar sail y data a ddarparwyd gan 90% o'r llyfrgelloedd fu'n cymryd rhan ynghylch eu ffigurau benthyca.
- Bu i 192,358 o ddefnyddwyr ymweld â'r wefan, gan ychwanegu 181,941 o deitlau at y Llwythwr Llyfrau a chyflwyno 89,632 o adolygiadau llyfrau.
- Defnyddiodd 766 o blant Sialens Ddarllen yr Haf i ennill Arts Award Discover[3] ledled 24 o awdurdodau yn Lloegr (gallai'r ffigwr hwn gynyddu wrth i blant orffen eu Arts Award yn ystod tymor yr hydref).

Cymryd rhan yn 2017 – Cymru

- Bu i 38,066 o blant yng Nghymru gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf yn eu llyfrgell leol. Roedd 43% o'r plant hyn yn fechgyn.
- Cwblhaodd 22,746 o blant (60%) Sialens Ddarllen yr Haf trwy ddarllen chwe llyfr.
- Cymerodd 2,379 yn rhagor o blant dan 4 oed ran yn Sialens Ddarllen yr Haf, gan ddefnyddio deunyddiau cyn oed ysgol a gynhyrchwyd yn arbennig.
- Ymunodd 2,759 o blant â'r llyfrgell fel aelodau newydd yn ystod y Sialens yr haf yma.
- Amcangyfrifwn fod nifer y benthyciadau gan blant yng Nghymru dros yr haf yn 815,535, a hynny ar sail y data a ddarparwyd gan 18 o'r 22 awdurdod fu'n cymryd rhan ynghylch eu ffigurau benthyca.
- Bu 141 o bobl ifanc rhwng 12 a 24 oed yn cefnogi'r Sialens trwy wirfoddoli.

[2] Arolwg Teuluoedd Sialens Ddarllen yr Haf 2017
[3] www.artsaward.org.uk/srcdiscover

Sut mae Sialens Ddarllen yr Haf yn gweithio

Bob blwyddyn, mae Sialens Ddarllen yr Haf yn dewis thema sy'n boblogaidd ymhlith plant a theuluoedd. Y thema eleni oedd **Anifail-Ysbiwyr**, ac roedd yn seiliedig ar asiantaeth dditectif â phob math o anifeiliaid deallus yn gweithio iddi – yn greaduriaid blewog, cennog a llithrig. **Tony Ross**, darlunydd rhai o'r llyfrau plant sydd wedi gwerthu orau yn y DU (ef yw creawdwr y llyfrau Little Princess, darlunydd cyfres Horrid Henry gan Francesca Simon, a llyfrau gan David Walliams a Claire Balding), a greodd y gwaith celf unigryw eleni.

Am ragor o wybodaeth am Sialens Ddarllen yr Haf ewch i'n gwefan readingagency.org.uk/children neu i'n gwefan i blant sydd ar gael trwy gydol y flwyddyn summerreadingchallenge.org.uk

Sialens Ddarllen yr Haf a pholisïau corfforaethol yr awdurdodau lleol

Darllen er pleser

Sialens Ddarllen yr Haf, a gyflwynir gan lyfrgelloedd, yw prif raglen darllen er pleser y DU i blant cynradd. Mae'r Sialens yn defnyddio grym darllen er pleser er mwyn gwella cyfleoedd plant mewn bywyd. Mae darllen er pleser yn benderfynydd pwysicach o safbwynt llwyddiant addysgol plant nag ydyw statws economaidd-gymdeithasol eu teuluoedd[4], a dyma'r unig weithgaredd y tu hwnt i'r ysgol y gellir dangos ei fod yn gysylltiedig â sicrhau swyddi rheoli neu broffesiynol[5]. Mae'r Sialens hefyd yn ysgogi plant i ddarllen yn fwy annibynnol ac yn amlach, ac yn ysbrydoli bechgyn i ddarllen y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth (dim ond 1 ym mhob 4 bachgen sy'n darllen y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth bob dydd[6]).

[4] OECD 2002; Prifysgol Rhydychen 2011

[5] Prifysgol Rhydychen, 2011

[6] Adroddiad yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol 2012

"Mae'r Sialens Ddarllen wedi gwneud imi ddarllen mwy oherwydd o'r blaen doeddwn i ddim yn darllen llawer iawn ond erbyn hyn rwy'n darllen llyfr mewn tua diwrnod! RWY'N CARU'R SIALENS DDARLLEN. Rwy'n meddwl y dylai pawb gymryd rhan." Bachgen 8-11 mlwydd oed, Torfaen

"Mae'n wych. Rydyn ni wedi cwblhau'r Sialens 4 neu 5 mlynedd yn olynol erbyn hyn. Mae'n ysgogiad gwych i ddal ati i ddarllen trwy gydol gwyliau'r haf." Rhiant i blentyn 4-7 oed, Caerffili

"Drwy ddod i gysylltiad â llenyddiaeth, mae dealltwriaeth plant a phobl ifanc o bŵer iaith yn cael ei hymestyn. Gall symbylu'r dychymyg, herio syniadau a chyflwyno syniadau newydd. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn gallu creu cariad at ddarllen a fydd yn cyfoethogi bywydau ac yn cyfrannu at les yn awr ac yn y dyfodol." Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru – Yr Athro Graham Donaldson CB, Chwefror 2015

Parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chychwyn cyfartal i bob plentyn

Bu modd i 2,379 o blant dan 4 oed yng Nghymru gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf eleni gan ddefnyddio'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer plant cyn oed ysgol. Mae rhieni a gofalwyr sy'n rhannu llyfrau yn rheolaidd gyda'u plant ifanc yn helpu datblygiad lleferydd ac iaith eu plant, ac mae hynny yn ei dro yn paratoi eu plant er mwyn cael y cychwyn gorau i'w bywydau ysgol[7].

Yn ogystal â sicrhau bod plant yn barod ar gyfer yr ysgol, mae Sialens Ddarllen yr Haf hefyd yn annog plant sydd eisoes yn yr ysgol i barhau i ddarllen dros wyliau hir yr haf er mwyn cynnal eu sgiliau darllen a'u hyder.

"Mae darllen y llyfrau a mynd i'r llyfrgell yn hwyl. Rwy'n hoffi cael y fedal ar y llwyfan yn y gwasanaeth" *Merch 8-11 oed, Bro Morgannwg*

"Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar." *Y Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg CA 2-4, Cymru, 2015*

Mae'n hanfodol sicrhau bod y neges am Sialens Ddarllen yr Haf yn cael ei chyfleu mewn ysgolion ledled Cymru yn y cyfnod cyn gwyliau'r haf er mwyn annog plant i gymryd rhan, ac yn 2017 ymwelodd staff llyfrgell â 504 o ysgolion i hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf.

Wrth i gapasiti staff ostwng, rydym yn gweld gostyngiad yn nifer yr ymweliadau ysgol, ac mae pecyn digidol Sialens Ddarllen yr Haf i ysgolion yn dod yn adnodd aruthrol o bwysig i lyfrgelloedd yn rhan o'u cynllun cyswllt ag ysgolion. Nod y pecyn ysgolion yw helpu athrawon i hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf fel gweithgaredd i'w disgyblion dros wyliau'r haf. Rhannodd awdurdodau llyfrgell yng Nghymru y pecyn digidol i ysgolion â dros 600 o ysgolion.

Yn ogystal â darparu'r adnoddau hyn i lyfrgelloedd, roeddent hefyd ar gael i athrawon eu cyrchu'n uniongyrchol – trwy gyfrwng gwefan The Reading Agency a hefyd ar wefan y TES.

[7] *Social Inequalities in Cognitive Scores at age 16: The Role of Reading*, Alice Sullivan a Matt Brown, 2013

"Trwy gydol y cyfnod allweddol, maent yn cael profiad o ystod gynyddol eang o destunau ymestynnol, er pleser ac er gwybodaeth, fel y gallant ddatblygu yn ddarllenwyr rhugl ac effeithiol" Saesneg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru CA 2–4 2008

Iechyd, lles a hyder

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn dod â theuluoedd ynghyd trwy gyfrwng darllen, yn ogystal â chynnig amrywiaeth gyfoethog o ddigwyddiadau creadigol am ddim. Mae'r digwyddiadau am ddim hyn yn rhoi'r cyfle i blant a theuluoedd gysylltu ag eraill mewn lleoliad cymunedol ac yn atal unigedd cymdeithasol posibl. Mae'r Sialens yn helpu plant i fagu hyder wrth ryngweithio'n gymdeithasol ac yn cryfhau cysylltiadau teuluol. Eleni, trwy gyfrwng Sialens Ddarllen yr Haf, rhoddodd llyfrgelloedd ledled Cymru gyfle i 28,039 o blant a'u teuluoedd fynychu 1,582 o ddigwyddiadau o ansawdd uchel. Mae'r cyfuniad o hwyl, rhyddid a chreadigrwydd y mae'r Sialens yn ei gynnig yn cael effaith sylweddol ar lefelau darllen plant, ystod eu darllen, eu hysgogiad, eu hyder a'u cyrhaeddiad addysgol cyffredinol. Mae siarad am lyfrau a darllen gyda phlant yn ymarfer eu sgiliau lleferydd ac iaith, yn eu helpu i ddeall yr hyn y maent wedi'i ddarllen ac yn cynyddu eu hyder o ran cyflwyno'r hyn y maent yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â chanllawiau Llywodraeth Cymru y dylai 'dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar'[8]. Mae llyfrgelloedd ac ysgolion yn defnyddio'r Sialens yn gynyddol i dargedu'r plant hynny sydd angen y gefnogaeth fwyaf wrth ddarllen.

"Rydw i wrth fy modd yn gwneud crefftau ac yn cael sticeri, medal a thystysgrif" Bachgen 4-7 oed, Abertawe

"Roeddwn i'n meddwl ei bod yn dda. Mae'n gwneud imi ddarllen mwy" Merch 8-11 oed, Caerdydd

"Gan fod gennyf 4 o blant, mae'n wych eu bod i gyd yn gallu gwneud rhywbeth gyda'i gilydd, a'r peth gorau oll yw ei fod yn weithgaredd sydd am ddim." Rhiant, Sir Gaerfyrddin

Diwallu anghenion pob plentyn

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn cynnwys pob plentyn a phob teulu, a phob cam o ran datblygiad darllen, gan ganiatáu i blant a chanddynt anghenion addysgol arbennig ac anableddau gymryd rhan.

Mae dewis yn elfen hanfodol o'r Sialens, a'r plentyn sy'n rheoli. Ni cheir unrhyw lefelau, felly gall plant ddewis beth bynnag y mynnant ei fenthyca o'u llyfrgell – llyfrau jôcs, nofelau graffig, barddoniaeth, llyfrau ffeithiol – ac mae llyfrau sain yn cyfrif hefyd. Yr hyn sydd wrth galon y Sialens yw plant yn dewis ac yn rhannu unrhyw lyfrau – mewn unrhyw fformat – y maent yn eu hoffi.

I blant sy'n cael anhawster â phrint neu blant a chanddynt nam ar eu golwg, mae'r llyfrgelloedd yn awgrymu deunyddiau amgen. Hefyd mae Gwasanaeth Llyfrgell am ddim Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (sy'n cwmpasu Braille, Print Anferth a Llyfrau Llafar) yn cael ei ddefnyddio'n aml i fenthyca llyfrau ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf a thrwy gydol y flwyddyn, a gall y rhan fwyaf o lyfrgelloedd gynorthwyo â hyn.

[8] Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg Cyfnodau Allweddol 2-4 (2016)

Mae gwasanaethau llyfrgell yn gynyddol ymwybodol o anghenion plant ag awtistiaeth ac mae rhai llyfrgelloedd yn cynnal sesiynau arbennig ar gyfer plant ag awtistiaeth.

Cyswllt Cymunedol trwy gyfrwng Gwirfoddolwyr

Bu 7,763 o wirfoddolwyr rhwng 12 a 24 oed ledled 153 o awdurdodau yn y DU yn cefnogi Sialens Ddarllen yr Haf a gweithgareddau eraill yn eu llyfrgelloedd, ac roedd hynny o fudd i'r Sialens ac iddynt hwy eu hunain, gan eu bod yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol i blant ac yn rhoi hwb i'w hyder eu hunain, eu hoffter o ddarllen a'u sgiliau cyn cael eu cyflogi. Dangoswyd bod gwirfoddoli yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl ifanc trwy gynyddu eu hunan-barch ac annog ymdeimlad o gyflawni a chyfrifoldeb[9]. Mae gwirfoddolwyr ifanc sy'n cefnogi llyfrgellwyr i gyflwyno'r Sialens yn cael eu grymuso i fagu sgiliau newydd a chyfrannu at eu cymunedau lleol.

O blith y 548 o wirfoddolwyr ifanc Hac Darllen a gwblhaodd yr arolwg cyfranogiad dros yr haf:

- Dywedodd 90% fod ganddynt fwy o hyder
- Roedd 89% yn teimlo bod ganddynt fwy o sgiliau
- Dywedodd 72% eu bod yn teimlo bod arnynt eisiau darllen mwy yn sgil cymryd rhan
- Dywedodd 84% eu bod yn teimlo fel petaent yn fwy o ran o'u cymuned
- Dywedodd 85% eu bod yn teimlo eu bod wedi helpu i gynyddu hyder plant wrth ddarllen.

"Mae gwirfoddoli yn sicr wedi bod er lles i mi. Mae wedi rhoi mwy o hyder i mi siarad â phobl nad wyf yn eu hadnabod. Fyddwn i ddim wedi gwneud hynny o reidrwydd cyn imi ddechrau gwirfoddoli ddwy flynedd yn ôl. Rwy'n bwriadu dal ati i wirfoddoli; dyma'r peth gorau imi ei wneud erioed. Rwy'n bwriadu defnyddio'r profiad hwn ar fy CV i'm helpu gyda fy ngyrfa i'r dyfodol; rwy'n mynd i'r coleg y flwyddyn nesaf ac mae arnaf eisiau gweithio gyda phlant, felly bydd yn wych cael y profiad hwn."
Aimee, Gwirfoddolwr Hac Darllen

Cyswllt Cymunedol trwy Wirfoddolwyr yng Nghymru

Gyda chefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru a Llywodraeth Cymru, datblygwyd cynnig Hac Darllen dwyieithog. Nod y cynllun peilot hwn oedd annog awdurdodau llyfrgell Cymru i ddefnyddio gwirfoddolwyr ifanc er mwyn helpu i gefnogi Sialens Ddarllen yr Haf a gweithgareddau eraill yn eu llyfrgelloedd. Bu 141 o bobl ifanc rhwng 12 a 24 oed yn cymryd rhan ledled Cymru.

Cyswllt Cymunedol trwy Weithio mewn Partneriaeth

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn rhoi'r cyfle i lyfrgelloedd weithio a chreu partneriaeth â chyrff eraill yn eu hardal leol. Mae llawer o'r enghreifftiau o gydweithio y clywn amdanynt yn cynnwys llyfrgelloedd yn gweithio gyda grwpiau i dargedu rhai o'r plant a'r teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed, a dyma lle mae gan y Sialens a llyfrgelloedd y potensial i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

[9] Adran Iechyd y DU (2011). 'Social action for health and well-being: building co-operative communities Department of Health strategic vision for volunteering'

Yn 2017, dywedodd awdurdodau llyfrgell Cymru eu bod wedi mynd ati'n fwriadol i dargedu'r grwpiau canlynol: plant a chanddynt anableddau dysgu neu anableddau corfforol, plant sy'n cael eu haddysgu gartref, plant sy'n derbyn gofal, teuluoedd sy'n deithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Cafwyd mentrau oedd wedi'u targedu i raddau mwy helaeth, gan fynd â'r Sialens allan i deuluoedd sydd wedi'u harwahanu'n wledig neu i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn yr awdurdod.

Cysylltiadau cyhoeddus a gweithgarwch lansiad cenedlaethol y DU

Roedd y gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer y Sialens yn canolbwyntio ar ein rhestrau llyfrau ar gyfer darllen dros yr haf; stori yn y newyddion am y cynnydd oedd yn cael ei ragweld mewn benthyciadau o lyfrgelloedd dros yr haf; a stori hwyliog yn llawn ffotograffau o blant yn darllen i'r anifeiliaid yn Sw Colchester. Llwyddasom i sicrhau sylw i'r Sialens mewn papurau newydd a chylchgronau ar lefel y DU, gan gynnwys *The Sun*, *The Guardian*, *The Sunday Mirror Magazine* a *Good Housekeeping*, yn ogystal â sylw gan ddefnyddwyr a darnau diddordeb lleol.

Er mwyn gwella'r sylw yn y wasg leol fe wnaethom gynnig cyfle i Aelodau Seneddol alw heibio i gael tynnu eu llun yn Nhŷ Portcullis ar 27 Mehefin. Roedd Aelodau Seneddol o bob rhan o Gymru, Lloegr a'r Alban yn bresennol i roi eu cefnogaeth i'r Sialens, gan gynnwys John Glen, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer y Celfyddydau, Treftadaeth a Thwristiaeth. Wedi'r digwyddiad aethom ati i ddarparu datganiad i'r wasg a ffotograffau personol i'r Aelodau Seneddol er mwyn iddynt eu rhannu â'u cyfryngau lleol.

Cafodd lansiad y Sialens ei gefnogi ar-lein gan ein fideos rhagflas Anifail-Ysbiwyr, a oedd yn cynnwys ymddangosiadau gan Tony Ross, a hefyd gan negeseuon fideo gan Lenor/Darlunydd Llyfrau Plant Llawryfog Waterstones, Lauren Child, a'r cyflwynydd radio a theledu Dermot O'Leary yn galw ar bobl i gymryd rhan.

Lansiad Cenedlaethol yng Nghymru

Lansiwyd y Sialens yn swyddogol yng Nghymru gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, Llywodraeth Cymru, yn Llyfrgell Prestatyn, Sir Ddinbych, ddydd Llun 10 Gorffennaf 2017.

Cynhaliodd yr awdur arobryn Rob Lewis ddwy sesiwn, gan gynnwys darlunio byw, gyda phlant o ysgol gynradd gyfagos Ysgol Clawdd Offa.

Sialens Ddarllen yr Haf 2018

Pleser o'r mwyaf gan The Reading Agency a llyfrgelloedd yw cyhoeddi Sialens Ddarllen yr Haf 2018, sef **Dyfeiswyr Direidi**.

Bydd plant yn archwilio map o Dre Beano er mwyn darganfod y trysor dirgel sydd wedi'i gladdu, gan ddod yn ddyfeiswyr direidi penigamp! Bydd Dennis, Dannedd a'i ffrindiau yn eu helpu i ddatrys cliwiau a chasglu sticeri, a byddant yn cael llond gwlad o hwyl a sbri ac anturiaethau lu ar eu taith!

Mae pawb yn Sialens Ddarllen yr Haf yn llawn cyffro ein bod yn cael gweithio gyda'r Beano wrth i'r cyhoeddiad eiconig hwn ddathlu ei ben blwydd yn bedwar ugain. Mae'r Beano wedi cael ei ddiweddaru ar gyfer cenhedlaeth newydd o ddilynwyr, a bydd yn dod â'i hiwmor unigryw i'r Sialens er mwyn ein cynorthwyo i ddathlu darllen, creadigrwydd, cyfeillgarwch a hwyl!